
# Diolch, diolch

**Andy Hughes**




Hawlfraint © 2020 Andy Hughes




Mae Duw 'di creu'r byd i gyd - y mwnci, y gath a'r ci,
Y cangarŵ, yr hipopotamws, yr eryr gyda'i blu,
Y glaswellt yn ein gardd ni, y sêr sydd yn y nen,
Y wawr sy'n cychwyn bob un dydd a'r machlud haul sydd uwchben.

Pan dwi'n stryglo a dwi'n drist achos pethau caled sy'n dod
Mae'n anodd i mi ymdopi'n dda neu ddeall be sy'n bod.
Hyd yn oed yn hyn, dwi'n diolch - Ti gyda fi o hyd
Mae'n gwneud i mi ddibynnu arnat Ti sy'n dal fy mywyd i.

Fedra i fyth ddeall dy gariad tuag atom ni.
Wnest ti roi dy unig fab i farw ar Galfarî.
Mae dy freichiau'n ymestyn i'n croesawu ni bob dydd.
Er ein bai, Ti YN maddau - Ti'n caru ni o hyd.